

Crynodeb Gwirio Ansawdd Tŷ Pinewood

Dyddiad y gweithgarwch: 20
Gorffennaf 2021

Dyddiad cyhoeddi: 10 Medi 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Dŷ Pinewood fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r uned yn cynnig gwasanaethau adsefydlu iechyd meddwl i ddynion a menywod 18 oed a throsodd. Mae Tŷ Pinewood wedi'i leoli yn Nhreorci a chaiff ei reoli gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â rheolwr y ward ar 20 Gorffennaf 2021 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am ei wasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut mae'r risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- Sut rydych yn nodi brigiadau o achosion / trosglwyddiadau nosocomiaidd o COVID-19 ac yn eu rheoli'n effeithiol?
- Sut rydych yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas ar gyfer anghenion y cleifion ar yr adeg hon? Pa newidiadau, os o gwbl, a wnaed i'r amgylchedd ffisegol, trefniadau ar y ward a gallu'r cleifion i fanteisio ar gyfnodau o absenoldeb o ganlyniad i COVID-19?
- Sut rydych yn diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, gyda mynediad i weithwyr iechyd meddwl proffesiynol ehangach pan fydd angen?
- O ystyried effaith COVID-19, sut rydych yn cyflawni eich dyletswydd gofal mewn

perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a sut mae hawliau'r cleifion yn cael eu diogelu?

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Yr asesiadau risg/archwiliadau amgylcheddol diweddaraf
- Data ar ddigwyddiadau, gan gynnwys ymddygiad heriol, ataliaeth ac arwahanu, dros y tri mis diwethaf

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym fod capasiti'r uned wedi cael ei ostwng o 16 o welyau i 13 o welyau ers dechrau'r pandemig er mwyn creu mwy o le drwy'r uned a helpu i fodloni canllawiau o ran cadw pellter cymdeithasol. Mae gan yr uned dri llawr rhyw benodol ar wahân, a rhannwyd pob llawr yn ddwy ardal benodol er mwyn galluogi'r cleifion i hunanynysu pe byddent yn dechrau arddangos neu ddioddef o unrhyw symptomau COVID-19. Dywedwyd wrthym mai dim ond dau glaf sydd wedi cael canlyniad prawf positif ar gyfer coronafeirws yn yr uned yn ystod y pandemig, sy'n galonogol.

Gwelsom fod asesiadau risg blynyddol wedi cael eu cynnal i fonitro ac asesu cyflwr yr adeilad a'r gwaith cynnal a chadw a wneir arno. Gwelsom hefyd dystiolaeth o archwiliadau wythnosol a gynhelir gan y staff er mwyn helpu i sicrhau bod yr uned yn lân ac yn daclus. Dywedwyd wrthym fod asesiadau risg pwyntiau clymu wedi cael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn ar gyfer pob llawr ar wahân yn yr uned er mwyn nodi a lleihau unrhyw risgiau posibl. Mae'r cleifion newydd a gaiff eu derbyn i'r uned yn cael eu rhoi mewn un o ddwy ystafell wely heb bwyntiau clymu wrth iddynt aros am eu hasesiad cychwynnol. Mae'r ystafelloedd gwely ar y llawr gwaelod yn cynnwys pwyntiau clymu a allai beri risg, gan mai eu diben yw helpu'r cleifion i adsefydlu cyn ailymuno â'r gymuned. Fodd bynnag, cadarnhaodd rheolwr y ward fod asesiadau risg priodol yn cael eu cynnal ar gleifion cyn i un o'r ystafelloedd gwely hyn gael eu neilltuo iddynt.

Gwnaethom siarad am effaith COVID-19 ar drefn arferol y cleifion yn yr uned. Nid oedd y cleifion hynny a oedd yn gymwys i adael yr ysbyty yn ôl Adran 17¹ yn cael gadael yr uned yn

¹ Mae Adran 17 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn caniatáu i gleifion a gedwir adael yr ysbyty am reswm a chyfnod penodol er mwyn helpu'r cleifion i adfer a chael eu rhyddhau i'r gymuned unwaith eto.

ystod y cyfnodau clo er eu diogelwch eu hunain. Dywedodd rheolwr y ward wrthym fod rhagor o ddigwyddiadau cymdeithasol wedi'u trefnu yn yr uned er mwyn helpu'r cleifion i addasu, fel nosweithiau bingo a nosweithiau cwis. Cynhaliwyd sesiynau ysgrifennu creadigol hefyd er mwyn i'r cleifion ysgrifennu llythyron at staff yn yr uned a oedd yn gwarchod eu hunain gartref yn ystod y pandemig, a gwnaethom nodi bod hyn yn rhywbeth cadarnhaol i'w wneud. Cyfyngwyd ymweliadau â chleifion yn yr uned gan eu teulu a'u ffrindiau hefyd yn ystod COVID-19, yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Cyflwynodd y gwasanaeth system goleuadau traffig, ac mae'r uned yn y categori 'melyn' ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu mai dim ond un oedolyn sy'n cael ymweld â chlaf yn yr uned ar y tro. Rhaid i ymweliadau gael eu trefnu ymlaen llaw gyda'r uned, ac mae'n ofynnol i ymwelwyr wisgo cyfarpar diogelu personol (PPE) ac i'w tymheredd gael ei gymryd wrth gyrraedd. Roedd y cleifion yn gallu ffonio eu ffrindiau a'u teulu yn ystod cyfnodau clo, a hefyd ddefnyddio'r sesiynau ysgrifennu creadigol i ysgrifennu llythyrau atynt.

Disgrifiodd rheolwr y ward sut roedd yr uned yn ffurfio grŵp anffurfiol gyda dwy uned iechyd meddwl leol arall o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, a oedd yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod y canllawiau COVID-19 diweddaraf. Roedd hyn yn sicrhau bod mesurau cyson a champau lliniaru yn cael eu rhoi ar waith i'r cleifion ym mhob safle. Roedd bwrdd yn cael ei arddangos yn yr uned i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r staff a'r cleifion am COVID-19. Dywedwyd wrthym fod hyn yn cael ei ddefnyddio fel pwynt trafod i atgoffa'r cleifion i ddilyn y canllawiau perthnasol, megis cadw pellter cymdeithasol.

Cadarnhaodd rheolwr y ward fod y rhan fwyaf o'r arwyddion sy'n cael eu harddangos yn yr uned yn ddwyieithog, a bod rhai aelodau o'r staff yn yr uned yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn helpu'r uned i ddiwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg ac sy'n dymuno cyfathrebu yn eu dewis iaith.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Polisiâu rheoli heintiau cyffredinol a pholisiâu penodol i COVID-19
- Yr asesiadau risg/archwiliadau rheoli heintiau diweddaraf

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Disgrifiodd rheolwr y ward yr addasiadau a wnaed i'r amgylchedd ac er mwyn helpu i leihau

trosglwyddiad COVID-19. Roedd posteri'n cael eu harddangos ar y waliau i atgoffa'r cleifion o'r canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol, ac roedd sgrin glir wedi ei gosod ar ddesg y dderbynfa. Cyfyngwyd ar nifer y bobl a ganiateir ym mhob ystafell hefyd er mwyn helpu i leihau cysylltiad agos. Dynodwyd mynedfa ar wahân i'r staff i wella'r llif o bobl drwy'r uned. Hefyd, darparwyd dillad gwaith i'r staff, a chyflwynwyd cyfleusterau newid ar y safle. Cawsom wybod ei bod yn ofynnol i'r holl staff, a'r cleifion (lle y bo'n briodol) wisgo masg bob amser, a bod hylif diheintio dwylo ar gael ym mhob rhan o'r uned.

Cawsom wybod am y systemau sydd ar waith i nodi'n brydlon unrhyw gleifion a allai fod yn arddangos neu'n dioddef o symptomau COVID-19. Dim ond os yw'r cleifion wedi cael canlyniad prawf negyddol wedi'i gadarnhau yn ddiweddar ar gyfer COVID-19 y maent yn cael eu derbyn i'r uned. Wedyn, mae'r cleifion yn cael eu swabio eto pan fyddant yn cyrraedd, ac mae'n ofynnol iddynt hunanynysu yn yr uned nes i'r uned gael eu canlyniadau prawf. Cymerir tymereddau'r cleifion ddwywaith y dydd, a chaiff cleifion eu profi bob pum niwrnod rhag ofn eu bod yn asymptomatig².

Dywedwyd wrthym am y trefniadau sydd ar waith yn yr uned er mwyn sicrhau bod y safonau atal a rheoli heintiau'n cael eu cynnal. Mae rhestrau gwirio dyddiol yn cael eu cwblhau i fonitro glendid cyffredinol y ward, a gwelsom fod archwiliadau hylendid dwylo wythnosol, ac archwiliadau atal a rheoli heintiau yn cael eu cwblhau. Cawsom hefyd ganlyniadau'r archwiliad diweddaraf a gwblhawyd gan ddefnyddio adnodd archwilio safonol Cymru gyfan 'Credits4Cleaning', a gwelsom fod yr uned wedi sgorio'n uchel, a bod camau wedi'u rhoi ar waith i ddatrys unrhyw faterion a nodwyd. Roedd rheolwr y ward yn teimlo bod y nyrs gyswllt atal a rheoli heintiau wedi cynnig cefnogaeth dda drwy gydol y pandemig i adolygu a chynnal trefniadau atal a rheoli heintiau lleol. Gwelsom fod y gyfradd gydymffurfio ar gyfer hyfforddiant gorfodol ar atal a rheoli heintiau yn uchel ymhlith y staff a oedd yn gweithio yn yr uned.

Gwnaethom gadarnhau bod y staff wedi cael hyfforddiant ar wisgo a diosg er mwyn sicrhau eu bod yn gallu defnyddio a gwaredu PPE yn gywir. Dywedwyd wrthym fod polisiâu'r bwrdd iechyd, megis PPE a Thechnegau Di-gyffwrdd Aseptig (ANTT), ar gael i'r staff drwy'r fewnwyd. Dosbarthwyd gwybodaeth frys am COVID-19 ac ar faterion yn ymwneud ag atal a rheoli heintiau i'r staff wrth drosglwyddo rhwng sifftiau, ac ysgrifennwyd y wybodaeth honno ar y bwrdd bwletin diogelwch er mwyn i'r staff fod yn ymwybodol ohoni.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

² Mae hyn yn golygu pobl sydd wedi'u heintio â COVID-19 ond nad ydynt yn arddangos unrhyw symptomau.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gofynnodd AGIC i gynrychiolwyr y gwasanaeth sut roeddent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Ystyriwyd a yw'r trefniadau rheoli yn cefnogi'r staff i gyflawni eu rolau ac a yw'r staff yn cael yr hyfforddiant priodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Hefyd, holwyd y gwasanaeth am y ffordd y mae, yn sgil effaith COVID-19, yn parhau i gyflawni ei ddyletswydd gofal o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (a diwygiadau dilynol) ac o ran diogelu hawliau'r cleifion.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Polisiâu uwchgyfeirio
- Polisiâu/prosesau corfforaethol i sicrhau bod y gwasanaeth yn barod ar gyfer argyfwng pandemig yn y dyfodol
- Cofnodion hyfforddiant gorfodol i bob aelod o'r staff

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cawsom gynllun gweithredu a oedd yn amlinellu'r trefniadau i reoli cleifion yn ddiogel mewn lleoliadau cleifion mewnol adsefydlu ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd yn ystod y pandemig, a oedd yn cynnwys Tŷ Pinewood. Roedd y cynllun yn nodi sut i reoli ymwelwyr â'r uned, sut i leihau'r risg o groes-heintio a sut i leihau'r effaith ar gleifion oherwydd y cyfyngiadau ar adael yr ysbyty. Gwelsom hefyd gopi o 'Ddatganiad System Ddiogel o Waith', a oedd yn nodi'r cynlluniau i'r uned ddechrau dychwelyd i wasanaethau arferol ar ôl llacio cyfyngiadau COVID-19.

Dywedwyd wrthym fod anghenion y cleifion yn parhau i gael eu monitro a'u trafod yn ystod y pandemig drwy eu hasesiadau rheolaidd a'u cyfarfodydd tîm aml-ddisgyblaethol misol, a gynhaliwyd o bell. Gwnaeth tîm gweinyddol y Ddeddf Iechyd Meddwl yn y bwrdd iechyd ddarparu canllawiau i'r staff yn ôl yr angen, gan sicrhau bod hawliau'r cleifion wedi parhau i gael eu cynnal yn unol â'r Ddeddf. Mae Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru wedi adolygu achosion cleifion o bell, ac mae Meddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn³ (SOAD) wedi archwilio meddyginiaeth a ragnodwyd i'r cleifion gan y meddygon yn yr uned.

Dywedodd rheolwr y ward wrthym fod y rotas staff yn cael eu datblygu chwe wythnos ymlaen llaw drwy ddefnyddio 'E-Rostering', sef adnodd electronig sy'n ymgorffori dewisiadau gweithio'r staff ac absenoldebau staff, megis gwyliau neu salwch. Mae'r rotas yn ystyried y cymysgedd sgiliau presennol, asesiadau risg parhaus ar gyfer y cleifion a ffactorau eraill, megis cleifion y gall fod angen arsylwi arnynt yn amlach. Cawsom wybod bod y staff yn cael amser i gwblhau eu gofynion hyfforddiant yn ogystal â'u cyfrifoldebau o ddydd i ddydd.

³ Mae'r gwasanaeth Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn yn diogelu hawliau cleifion a gaiff eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Ei rôl yw penderfynu a yw'r driniaeth a argymhellir i gleifion yn amddiffynadwy yn glinigol, ac a roddwyd ystyriaeth ddyledus i farn a hawliau'r claf.

Gwnaethom siarad am y cymorth a gynigir i'r staff yn yr uned. Mae'r holl staff newydd yn cael cyfnod sefydlu er mwyn iddynt ymgysgu â'r uned. Neilltuir cyfaill i weithwyr cymorth gofal iechyd newydd, a all ateb unrhyw gwestiynau a all fod ganddynt, a neilltuir uwch-aelod o'r staff fel mentor i'r nyrsys cofrestredig er mwyn eu helpu a'u goruchwylio. Ers y pandemig, mae'r staff wedi cwblhau asesiadau risg COVID-19 i nodi'r aelodau hynny sy'n wynebu mwy o risg o ddal yr haint o bosibl a/neu a allai gael canlyniad andwyol pe baent yn dal yr haint. Roedd sesiynau agored a gynhelir gan seicolegwyr hefyd ar gael i'r staff, pe bai angen unrhyw gymorth ychwanegol arnynt gyda'u llesiant.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Fel rhan o'r gwiriad sicrwydd, gwnaethom ystyried sut mae'r uned yn sicrhau bod digon o staff ar y ward a bod y staff hynny yn meddu ar y cymysgedd sgiliau priodol i ddiwallu anghenion y cleifion. Gwelsom ddogfen a oedd yn amlinellu'r egwyddorion a nodwyd gan Brif Swyddog Nyrsio Cymru i leoliadau iechyd meddwl eu rhoi ar waith i fodloni gofynion Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016. Gwelsom nad oedd yr uned yn bodloni egwyddor naw ar hyn o bryd, sy'n nodi y dylai'r rota gynnwys o leiaf ddwy nyrs gofrestredig ar bob sifft, neu, lle mae barn broffesiynol wedi penderfynu nad yw hyn yn angenrheidiol, mae'n rhaid ei bod yn gallu galw ar ail nyrs gofrestredig yn ddi-oed. Rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd ynghylch sut y caiff yr egwyddor hon ei bodloni yn yr uned yn y dyfodol.

Cawsom yr ystadegau hyfforddiant gorfodol a gwelsom fod lefelau cymysg o gydymffurfio mewn rhai meysydd. Rydym yn cydnabod bod COVID-19 wedi effeithio ar y meysydd hyfforddiant hyn o ganlyniad i ddiffyg opsiynau hyfforddiant wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, dylai'r bwrdd iechyd ystyried pob opsiwn er mwyn mynd i'r afael â'r risg nad yw'r staff yn cael yr hyfforddiant gorfodol diweddaraf a chyflwyno tystiolaeth i AGIC o fewn tri mis bod y gyfradd gydymffurfio wedi gwella.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynnwys cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad yn crynhoi'r gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella

Lleoliad: Tŷ Pinewood

Dyddiad y gweithgarwch: 20 Gorffennaf 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y Gwiriad Ansawdd, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd ynghylch sut y bydd yn bodloni egwyddor naw a nodwyd gan Brif Swyddog Nyrsio Cymru er mwyn sicrhau bod o leiaf ddwy nyrs gofrestrdig ar y rota ar bob sifft, neu, os penderfynir nad yw'n angenrheidiol, mae'n rhaid sicrhau y gall yr uned alw ar nyrs gofrestrdig yn ddi-oed.	Safonau Iechyd a Gofal 3.1 a 7.1	Cynnal adolygiad o'r adnodd staffio gyda'r nos ym mhob rhan o'r gwasanaeth adsefydlu yng Nghwm Taf Morgannwg, a datblygu arfarniad opsiynau i fynd i'r afael â'r risg mai dim ond un unigolyn cofrestrdig fyddai ar ddyletswydd gyda'r nos	Pennaeth Nyrsio/Rheolwr y Grŵp Gwasanaethau Clinigol	30 Tachwedd 2021
2	Rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd ynghylch ei gynlluniau i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cydymffurfio'n llawn â'i hyfforddiant gorfodol cyn gynted â phosibl.	Safonau Iechyd a Gofal 3.1 a 7.1	Adolygu'r holl gymwyseddau craidd ym mhob rhan o'r gwasanaeth adsefydlu gyda chynllun gwella ar gyfer sicrhau cyfradd gydymffurfio o 85%+	Rheolwr y ward/Uwch-nyrs	30 Tachwedd 2021

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Phil Lewis

Dyddiad: 25 Awst 2021